


Stori Amanda

Pan ymunodd Amanda Raturcoko â'r fyddin ym 1992, nid y gyfran uchel o ddynion oedd y peth cyntaf ar ei meddwl. Roedd y gweithgareddau corfforol a chwaraeon amrywiol yn apelio ati, yn ogystal â chyfle i deithio'r byd.



Yn 21 mlwydd oed, ymunodd â'r adran Peirianwyr Trydanol a Mecanyddol Brenhinol yn ei Chatrawd.

Mae'n amcangyfrif yr oedd tua 95% o'i chydweithwyr yn ddynion – a hithau'n un o lond llaw yn unig o fenywod, cafodd brofiad uniongyrchol o stereoteipio rhywedd yn y gweithle. Yn wir, ei phrif atgof yw gorfod gweithio'n galetach na'i chydweithwyr gwrywaidd.

“Roedd yn teimlo fel bod angen i fenywod yn y lluoedd arfog weithio ar gyfradd o 120% o gymharu â dynion,” dywedodd.

“Gan fod cyn lleied ohonon ni, pan fyddai menywod yn gwneud camgymeriadau, roedd pobl yn sylwi arnynt yn haws. Nid oedd hynny'n wir am ddynion.

“Er mwyn symud ymlaen trwy'r rhengoedd, o gymharu â'm cydweithwyr gwrywaidd, roeddwn yn teimlo fel bod angen i fi weithio'n galetach fyth.”

Mae Amanda'n cofio digwyddiad lle cafodd hi a'r menywod eraill dan hyfforddiant eu bychanu gan filwr gwrywaidd, ar gwrs hyfforddiant:

“Gwaeddodd filwr [gwrywaidd] arall o'i ffenest, 'Ti! Sowldiwr! Stopia!' felly stopion ni, ond gwaeddodd yn ôl, 'Dim chi, merched ydych chi!' Roedd agwedd o'r fath yn gyffredin iawn. Roedd yn debyg i ymddygiad ar gae chwarae ysgol gynradd.”

Ar gwrs hyfforddwr corfforol, profodd Amanda ymddygiad ymosodol corfforol:

“Taflodd cydweithiwr gwrywaidd bêl fasged at fy wyneb, o ychydig droedfeddi i ffwrdd. Roeddwn i'n meddwl fy mod i wedi torri fy nhrwyn i ddechrau, a dywedodd ‘dwyt ti ddim yn haeddu bod yma - merch wyt ti’.”

Hefyd, mae Amanda'n cofio'r goblygiadau oedd yn gysylltiedig â menyw yn dod yn ffrind i brif swyddog gwrywaidd:

“Roedd yn haws i ddynion fod yn ffrind i ddyn mewn swydd uwch, ond pan fyddai menyw yn datblygu perthynas gadarnhaol â phrif swyddog oedd digwydd bod yn ddyn, roedd llawer o sylwadau o natur rywiol a stereoteipio.”

Er gwaetha'r anawsterau roedd yn eu hwynebu'n gyson o ganlyniad i'r nifer uchel o ddynion a stereoteipio negyddol, arweiniodd dyfalbarhad Amanda at yrfa a barodd 23 mlynedd, a chododd drwy'r rhengoedd i fod yn Swyddog Gwarant Dosbarth 2. Gadawodd Amanda yn 2014 i gael ei thrydydd plentyn, gan deimlo, ar y pryd, ac mewn gweithle mor wrywaidd ei naws, nad oedd llawer o gydymdeimlad na dealltwriaeth ynghylch materion yn ymwneud â mamolaeth. Roedd ei blaenoriaethau wedi newid, ac roedd yn gyfle i ddod â'i gyrfya yn y fyddin i ben yn naturiol.

A hithau'n wreiddiol o Ogledd Iwerddon, mae Amanda bellach yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda'i thair merch ifanc. Ar ôl dros ddau ddegawd mewn amgylchedd llawn dynion, mae hi wedi troi at y diwydiant adeiladu, sydd yr un mor wrywaidd ei naws. Mae Amanda bellach yn gweithio fel hyfforddwr cwrs ar gyfer corff achredu cenedlaethol, yn hyfforddi ac yn asesu darpar-hyfforddwyr.

“Weithiau mae pobl yn dal i edrych arna i'n rhyfedd, pan fyddaf yn mynd i safleoedd adeiladu i asesu pobl a minnau'n fenyw, ond mae pethau'n gwella, yn bendant. Pan fyddaf yn cyflwyno cyrsiau, nid yw'n anarferol gweld bod rhai dynion yn synnu mai menyw sy'n sefyll o'u blaenau, ond o'm profiad i, os oes gennych wybodaeth drylwyr fel hyfforddwr, maen nhw'n gwerthfawrogi hynny.”

Mae gan Amanda gyngor clir i bobl sy'n wynebu stereoteipiau rhywedd yn y gweithle, y gymuned neu'r cartref.

“Yn ystod fy ngyrfa, gwelais lawer o fenywod oedd wedi colli eu hysbryd. Gadawodd llawer ohonynt, ond gyda dewrder a dyfalbarhad, does dim rheswm pam na allwch wneud rhywbeth, beth bynnag yw eich rhywedd. Rwy'n dweud wrth fy mhlant, ‘os byddwch yn syrthio, codwch ar eich traed a gweithiwch yn galetach.’”

“Mae ymgyrchoedd fel #dymafi yn bwysig dros ben, yn enwedig ar gyfer ein plant. Ni ddylem ddweud wrthyn nhw nad ydyn nhw'n gallu gwneud rhywbeth oherwydd eu rhywedd. Dylem eu hannog i roi eu bryd ar beth bynnag maen nhw eisiau ei wneud, a gyda dyfalbarhad a chefnogaeth, byddant yn llwyddo.”